Adroddiad i'r	Cyngor Llawn
Dyddiad y cyfarfod	24 Mai 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad	Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro
Teitl	Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceisio enwebiadau a phenodiadau'r Cyngor i'r Pwyllgor Safonau; sefydlu 'Panel Penodiadau Arbennig' ar gyfer un Aelod Lleyg newydd. Yn ogystal, ymgynghori ar ailbenodi Aelod o'r Pwyllgor Safonau Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r rheoliadau llywodraethu ynghylch cyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o rhwng pump a naw aelod sy'n cynnwys unigolion sy'n annibynnol o'r Cyngor (Aelodau Lleyg neu Annibynnol), Cynghorwyr Sir a Chynghorydd Cyngor Tref a Chymuned. Oherwydd treigl amser, a'r terfynau amser cyfreithiol y gall yr Aelodau Lleyg wasanaethu o'u mewn, mae bellach yn angenrheidiol i ddisodli un Aelod Annibynnol sy'n ymddeol (Ian Trigger); un Aelod Lleyg i'w ailbenodi am dymor arall yn y swydd; ailbenodi Aelod Tref a Chymuned a hefyd sefydlu Panel Penodiadau Arbennig i gyfweld â'r darpar ymgeiswyr ar gyfer rôl Aelod Lleyg gwag a gwneud yr argymhellion priodol i'r Cyngor Llawn wedi hynny.

Mae Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych yn cynnwys 7 aelod, ac mae'r rheoliadau'n nodi, lle mae odrif, bod yn rhaid cael mwyafrif o Aelodau Lleyg. Felly, mae angen 4 Aelod Lleyg, 2 Aelod Cynghorydd Sir ac un Aelod Tref, Dinas a Chymuned ar y Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes wedi ailbenodi 2 o'r Aelodau Lleyg hyn (Anne Mellor a Julia Hughes) ar gyfer y tymor arall hwn yn y swydd. Gofynnir hefyd i'r Cyngor benodi dau o'i Aelodau etholedig i eistedd ar y Pwyllgor Safonau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Swyddog Monitro yn ymgynghori â'r Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned mewn perthynas ag ailbenodi Aelod Tref a Chymuned y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Gordon Hughes.

3.2 Bod yr aelod annibynnol, Peter Lamb yn cael ei ailbenodi am ail dymor a'i dymor olaf yn y swydd.

3.3 Bod tri Chynghorydd Sir yn cael eu penodi i eistedd ar Banel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau er mwyn ystyried a chyfweld yr ymgeiswyr am sedd wag Aelod Lleyg ac wedyn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn.

3.4 Penodi dau Gynghorydd Sir yn aelodau o'r Cyngor i eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

3.5 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les fel rhan o'r penderfyniad hwn.

4. Manylion yr adroddiad

Ailbenodi Aelod Cyngor Cymuned

4.1 Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau yn ei gwneud yn ofynnol cyn ailbenodi cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned, y dylid ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned o fewn y Cymdeithasau Cynghorau Sir a Chymuned. Mae cynrychiolydd presennol y Gymuned, y Cynghorydd Gordon Hughes, wedi dweud ei fod yn hapus i barhau, yn amodol ar yr ymgynghoriad statudol, ac yna cymeradwyaeth. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad hwnnw wedi'i gwblhau, bydd adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cyngor Llawn ynghyd ag argymhellion mewn perthynas â phenodi Aelod Lleyg fel y nodir yn 4.2 isod.

Ailbenodi un Aelod Lleyg.

4.2 Diwygiwyd deddfwriaeth y Pwyllgor Safonau yn 2006 ac ers hynny gall aelodau wasanaethu am ail dymor yn olynol. Mae hyn, yn achos aelodau annibynnol, wedi'i gyfyngu i bedair blynedd. Mae'r aelod annibynnol, Peter Lamb, sy'n gymwys i wasanaethu am dymor pellach, wedi mynegi awydd i barhau yn ei rôl a gwahoddir y Cyngor i'w ailbenodi. Wrth wneud yr ailbenodiad am un tymor arall, mae'r rheoliadau diwygiedig bellach yn pennu nad oes gofyniad i ailbenodi drwy hysbyseb.

Sefydlu Panel Penodiadau Arbennig

4.3 Mae Rheoliadau'r Pwyllgorau Safonau hefyd yn sefydlu Panel Penodiadau Arbennig a'i swyddogaeth yw ystyried ceisiadau am unrhyw leoedd gwag ar gyfer aelodau Lleyg

(h.y. nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor), a gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn. Bydd y Panel hwn yn cynnwys dim mwy na phum aelod panel. Rhaid i un aelod panel fod yn unigolyn lleyg, un yn aelod o gyngor cymuned a hyd at dri yn Gynghorydd Sir.

4.4 Dim ond yn achlysurol iawn y bydd y Panel hwn yn cyfarfod pan fydd sedd wag o'r fath yn codi. Gofynnir felly i'r Cyngor enwebu 3 Chynghorydd Sir i Banel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau yn barod i gychwyn y broses recriwtio ar gyfer yr aelod annibynnol newydd. Nid yw'r rheoliadau'n nodi y dylai'r Panel hwn fod yn wleidyddol gytbwys. Fodd bynnag, mae Cynghorau blaenorol wedi gwneud enwebiadau gwleidyddol gytbwys.

Penodi Dau Gynghorydd Sir i'r Pwyllgor Safonau

4.5 Ceisir dau benodiad gan y Cyngor i eistedd ar y Pwyllgor Safonau ei hun, sy'n eistedd tua 4 neu 5 gwaith y flwyddyn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd Pwyllgor Safonau sy'n gweithredu'n llawn ac sy'n gyfreithiol gyfansawdd yn rhoi'r oruchwyliaeth a'r orfodaeth ofynnol i'r Cyngor o'r fframwaith moesegol o fewn ei faes. Mae cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn sail i swyddogaethau democrataidd y Cyngor ac mae Cyngor a lywodraethir yn dda yn cefnogi cyflawniad blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gosod y gyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau annibynnol. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod y gyfradd hon yn cael ei chynnig i aelodau annibynnol. Mae'r gyfradd ddyddiol hon ar gyfer 2022-23 fel a ganlyn:

Os yw aelod yn gweithio am lai na 4 awr y dydd, y gyfradd yw £105 i £134, yn dibynnu ar ei rôl.

Os yw aelod yn gweithio am fwy na 4 awr y dydd, y gyfradd yw £210 i £268, yn dibynnu ar ei rôl.

Telir y gost o'r dyraniadau presennol ar gyfer y Pwyllgor hwn gan nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion aelodaeth.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cael gwybod am y broses cymeradwyo recriwtio. Bydd hysbyseb gyhoeddus yn cael ei gosod yn unol â'r ddeddfwriaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y nodir yn adran 6, telir y gost o'r dyraniadau cyllideb presennol gan nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion aelodaeth. O ganlyniad, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau a nodwyd wrth fynd ymlaen â'r penodiadau.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000

Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001